OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 799 (Cy.79)

GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*15 Mawrth 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*16 Mawrth 2010*
Yn dod i rym	
At ddibenion rheoliad 6	*6 Ebrill 2010*
At bob diben arall	*12 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2010.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar—

(a) 6 Ebrill 2010 at ddibenion rheoliad 6; a

(b) 12 Ebrill 2010 at bob diben arall.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992(**3**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1948 p.29. *Gweler* adrannau 35(1) a 64(1) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i gael y diffiniadau o "the minister" a "prescribed" yn y drefn honno ac erthygl 2 o Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wasanaethau Cymdeithasol 1968 (O.S. 1968/1699) a drosglwyddodd holl swyddogaethau'r Gweinidog Iechyd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a throsglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) O.S. 1992/2977 fel y'i diwygiwyd gan gyfres o offerynnau dilynol.

Symiau y mae eu hangen at anghenion personol

2. Y swm y bydd awdurdod lleol yn rhagdybio y bydd ei angen ar berson at ei anghenion personol o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 fydd £22.50 yr wythnos.

Dirymu

3. Mae rheoliadau 2, 3, 4, 5 o Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2009(**4**) drwy hyn wedi eu dirymu.

4. Mae rheoliad 28A o'r Prif Reoliadau drwy hyn wedi ei ddirymu.

Cynyddu swm y credyd cynilion sydd i'w ddiystyru

5.—(1) Diwygir y Prif Reoliadau yn unol â'r paragraff canlynol.

Yn Atodlen 3 ym mharagraff 28H—

(a) yn is-baragraffau (1) a (2) yn lle'r ffigur "£5.65" rhodder y ffigur "£5.75" ym mhob lle y mae'n ymddangos; a

(b) yn is-baragraffau (3) a (4) yn lle'r ffigur "£8.45" rhodder y ffigur "£8.60" ym mhob lle y mae'n ymddangos.

Diwygiadau eraill i'r Prif Reoliadau

6.—(1) Diwygir y Prif Reoliadau ymhellach yn unol â'r paragraffau canlynol.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) ar ôl y geiriau "prospective resident" mewnosoder—

""qualifying age"" has the same meaning as in section 1(6) of the State Pension Credit Act 2002(**5**);

"relative" has the same meaning as in the Income Support Regulations;"(**6**).

(3) Yn Atodlen 2 (symiau sydd i'w diystyru wrth gyfrifo enillion), yn is-baragraff (2) o baragraff 3—

(a) ym mharagraff (b), yn lle "the age of 60" rhodder "the qualifying age"; a

(b) ym mharagraff (c), yn lle "the age of 60" ym mhob lle y mae'n ymddangos, rhodder "the qualifying age".

(4) Yn Atodlen 3 (symiau sydd i'w diystyru wrth gyfrifo incwm ac eithrio enillion), yn is-baragraff (6) o baragraff 28H, hepgorer paragraff (b).

(5) Yn Atodlen 4 (cyfalaf sydd i'w ddiystyru), ym mharagraff 2(**7**), yn lle is-baragraffau (1) a (2) rhodder—

"(1) The value of any premises—

(a) which would be disregarded under paragraph 2 or 4(b) of Schedule 10 to the Income Support Regulations (premises acquired for occupation and premises occupied by a former partner); or

(b) occupied in whole or in part as their home by the resident's—

(i) partner,

(ii) other family member or relative who is aged over 60 or over or is incapacitated, or

(**4**) O.S. 2009/632 (Cy.58).
(**5**) 2002 p.16.
(**6**) Mewnosodwyd diffiniad o "relative" yn yr un termau ar gyfer yr Alban yn unig gan O.S.A. 2009/381, rheoliad 2(1).
(**7**) Rhoddodd O.S. 1993/964 ddarpariaethau yn lle paragraff 2 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2009/462.